DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFYRDD DIENW, MAN I'R DE AC I'R DE-DDWYRAIN O HENRY STREET, BUTETOWN, CAERDYDD) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ar 12/04/2022 o dan y cyfeirnod 21/01720/MJR a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffyrdd Dienw, Man i'r De ac i'r De-ddwyrain o Henry Street, Butetown, Caerdydd) 2022 ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Hyb Ieuenctid Pafiliwn Butetown, Dumballs Road, Caerdydd, CF10 5FE neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1523390, neu gellir eu gweld ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 13 Gorffennaf 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J Saddler

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (UN-NAMED HIGHWAYS, SOUTH AND SOUTHEAST OF HENRY STREET, BUTETOWN, CARDIFF) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up is authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council of the City and County of Cardiff on 12/04/2022 with reference number 21/01720/MJR described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Un-named Highways, South and Southeast of Henry Street, Butetown, Cardiff) Order 2022 ("the Order"), if made, will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Butetown Pavilion Youth Hub, Dumballs Road, Cardiff CF10 5FE or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1523390, or viewed online on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

a. it is not within the powers of the Act; or

b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 13 July 2022 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J Saddler

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)
Y darnau o briffordd sydd i'w cau

1. Darn petryalog ei siâp o briffordd yn gyfagos i, ac i'r de o Henry Street, Butetown, Caerdydd, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 56 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r de-ddwyrain o Henry Street, Butetown, Caerdydd, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 99 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2
Y datblygiad

Datblygu cynllun byw yn y gymuned â 45 o fflatiau i bobl hŷn, cyfleuster chwaraeon cymunedol a gwaith cysylltiedig yn Brandon Hire plc gynt, 151-153 Stryd Bute, Butetown, Caerdydd.

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)
Lengths of highway to be stopped up

1. A rectangular shaped length of highway located adjacent to and south of Henry Street, in Butetown, Cardiff having a total area of 56 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'A' on the deposited plan.

2. An irregularly shaped length of highway located southeast of Henry Street, in Butetown, Cardiff having a total area of 99 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'B' on the deposited plan.

SCHEDULE 2
The development

Development of 45 apartment older persons' community living scheme, community sports facility and associated works at the former Brandon Hire plc, 151-153 Bute Street, Butetown, Cardiff.